DYDDIEDIG[ ]2008

(1) S4C

(2) [ ]

CYTUNDEB I DDARPARU GWASANAETH PANEL YMATEB CYNULLEIDFA

S4C
Parc T□ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

CYNNWYS

1. Diffiniadau a Dehongliad
2. Cyfnod Paratoi
3. Gwasanaethau
4. Dyletswyddau Cyffredinol y Cwmni
5. Personél a Phersonél Allweddol
6. Adolygu
7. Adroddiadau a Threfn Gyfathrebu
8. Eiddo Deallusol
9. Gwarantau
10. Materion Ariannol
11. Indemniad
12. Tymor a Terfynu
13. Canlyniadau Dirwyn i ben neu Derfynu
14. Anghydfodau
15. Aseinio ac Is-Gontractio
16. Force Majeure
17. Gwrthgyfrif
18. Rhybuddion
19. Rhwymedïau ac Ildio
20. Cyfrinachedd
21. DRhG
22. Dehongliad

Atodlenni
1. Gwasanaethau a Safonau Gweithredu
2. Gwarantau
3. Personél Allweddol
4. Ffi a'r Amserlen Dalu
5. Trefn Gyfathrebu
6. Trefnweithiau Cynnal Safonau

GWNEIR Y CYTUNDEB HWN y [ ] dydd o [ ] 2008

RHWNG:

(1) **S4C** o Barc T□ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU ("S4C"); a

(2) **[Enw'r Cwmni]** o [cyfeiriad] ("y Cwmni")

RHAGARWEINIAD:

(A) Ar 1af Gorffennaf 2008, cyhoeddodd S4C dendr ar gyfer darparu gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa.

(B) Yn dilyn y broses dendr, dewiswyd y Cwmni gan S4C ac mae'r Cwmni wedi cytuno i ddarparu'r Gwasanaethau yn unol â'r telerau a bennir yn y Cytundeb hwn.

CYTUNIR fel a ganlyn:

1. Diffiniadau a Dehongliad

bydd gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol oni bai bo'r cyd-destun yn mynnu fel arall:

" Adroddiadau"	adroddiadau yn y ffurf ac yn cynnwys y materion a bennir yn fanwl yn Rhan A o Atodlen 1;
"Amserlen Dalu"	yr amserlen dalu sydd ynghlwm yn Atodlen 4;
"Ansolfedd"	unrhyw un o'r canlynol:

(a) cyflwyno deiseb neu alw cyfarfod at ddibenion ystyried cynnig i ddirwyn i ben neu i ddiddymu'r Cwmni, derbyn cynnig i ddirwyn y Cwmni i ben neu i'w ddiddymu, neu wneud gorchymyn i ddirwyn y Cwmni i ben neu orchymyn i ddiddymu'r Cwmni;

(b) penodiad derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, derbynnydd a rheolwr, gweinyddwr, secwestrydd neu swyddog tebyg dros holl neu unrhyw asedion neu fusnes y Cwmni, neu wneud cais i benodi gweinyddwr, neu wneud gorchymyn i benodi gweinyddwr neu gyflwyno deiseb i benodi gweinyddwr, mewn perthynas â'r Cwmni;

(c) y cynnig i wneud, y cais am neu ymrwymo i gyfaddawd neu ddealltwriaeth neu drefniant gwirfoddol, neu unrhyw gynllun, cyfamod neu drefniant arall i fodloni neu

gyfrandalu unrhyw rai o ddyledion y Cwmni neu drefniant arall er budd credydwr y Cwmni yn gyffredinol, gan y Cwmni gydag unrhyw rai o'i gredydwyr (neu unrhyw ddosbarth ohonynt) neu unrhyw rai o'i gyfranddalwyr (neu unrhyw ddosbarth ohonynt) neu unrhyw weithredu gan y Cwmni mewn unrhyw fodd i'r perwyl hwn neu gofnodi unrhyw ddogfennau gyda'r llys at ddiben sicrhau moratorium yn sgil adran 1A a pharagraff 7 o Atodlen A1 y Ddeddf Ansolfedd 1986 mewn perthynas â'r Cwmni;

(ch) lle bo unrhyw gredydwr (boed wedi ei ddiogelu gan arwystl neu fel arall) yn cymryd meddiant o neu'n atafaelu yn erbyn neu'n gweithredu rhyw broses arall dros yr holl neu ran o eiddo, asedion neu fusnes y Cwmni;

(d) anallu tybiedig y Cwmni (os yw'n gwmni) i dalu'i ddyledion o fewn ystyr adran 123 Deddf Ansolfedd 1986 (ond bernir fod y geiriau 'wedi eu profi at fodd y llys' wedi eu hepgor o'r fath adran at y dibenion hyn) neu os yw'n unigolyn, lle bo'r Cwmni yn ymddangos fel na bai'n medru talu dyled neu nad oes ganddo obaith rhesymol o fedru talu dyled o fewn ystyr adran 268 y Ddeddf Ansolfedd 1986;

(dd) lle bo'r Cwmni yn gohirio talu ei ddyledion neu'n methu neu'n cyfaddef nad yw'n medru talu ei ddyledion wrth iddynt godi'n ddyledus;

(e) lle bo'r Cwmni yn rhoi'r gorau i gynnal y cyfan neu ran helaeth o'i fusnes;

(f) marwolaeth y Cwmni os yn unigolyn;

(ff) cyflwyno deiseb i'w wneud yn fethdalwr, neu wneud gorchymyn o fethdalwr, mewn perthynas â'r Cwmni, neu ddigwydd amgylchiadau mewn perthynas â'r Cwmni a fyddai'n galluogi cyflwyno deiseb methdaliad o dan Ran IX y Ddeddf Ansolfedd 1986 neu wneud cais am orchymyn interim neu wneud gorchymyn interim o dan adran 252 y Ddeddf Ansolfedd 1986 mewn perthynas â'r Cwmni;

(g) penodiad derbynnydd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 mewn perthynas â'r Cwmni, neu lle bo'r Cwmni yn glaf o dan unrhyw ddeddfwriaeth iechyd meddwl neu fel arall lle bo'r Cwmni yn analluog o reoli ei f/bywyd; neu

(ng) lle bo unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiad mewn perthynas â'r Cwmni sy'n debyg i unrhyw un o'r cyfryw amgylchiadau y cyfeirir atynt yn (a) i (g) uchod yn digwydd o fewn unrhyw awdurdodaeth heblaw am Loegr a Chymru;

a dehonglir y term "Ansolfent" yn unol â'r uchod; **[Noder: bydd angen diwygio'r diffiniad hwn yn dibynnu ar statws cyfreithiol y Cwmni.]**

"Bâs Data" y cofnod papur log neu raglen sy'n cynnwys yr holl ddata a gwybodaeth arall (gan gynnwys Gwybodaeth) a gasglwyd gan y Cwmni wrth sefydlu a recriwtio'r Panel a darparu'r Gwasanaethau;

"Blwyddyn" y cyfnod o flwyddyn galendr (Ionawr 1af i Ragfyr 31ain) yn ystod y Cyfnod Gweithredol (neu ran o flwyddyn yn achos y flwyddyn olaf yn ystod y tymor).

"Cwmni Teulu" unrhyw is-gwmni neu gwmni dal o dro i dro ac unrhyw is-gwmni o'r cyfryw gwmni dal o dro i dro (a diffinnir 'cwmni dal' ac 'is-gwmni' yn adrannau 736 a 736A Deddf Cwmnïau 1985 fel sydd mewn grym ae ddyddiad y Cytundeb hwn);

"Cyfnod Gweithredol" y cyfnod yn cychwyn ar y Dyddiad Gweithredol ac yn diweddu am ganol nos ar y Dyddiad Terfynu;

"Cyfnod Paratoi" y cyfnod yn dechrau ar y Dyddiad Cychwyn ac yn diweddu am ganol nos ar 31ain Rhagfyr 2008;

"Cyfnod Prawf" y cyfnod yn dechrau ar y Dyddiad Gweithredol ac yn diweddu am ganol nos ar 30 Mehefin 2009;

"Cynllun Iaith Gymraeg" cynllun iaith Gymraeg S4C sydd mewn grym o bryd i'w gilydd y gellir cael copi ohono ar y safle cynhyrchu ar wefan S4C ar **http://www.s4c.co.uk/production/downloads/guidelines/cynlluniaith_c.pdf;**

"Cynrychiolydd S4C" yr unigolyn a benodir gan S4C yn sgil Cymal 7.2;

"Cynrychiolydd y Cwmni" yr unigolyn a benodir gan y Cwmni yn sgil cymal 7.1;

"Cytundeb" y cytundeb hwn ac unrhyw ddogfen y cyfeirir ati yn y cytundeb hwn;

"DRhG"	Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wneir yn sgil y Ddeddf hon o bryd i'w gilydd ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â'r fath ddeddfwriaeth;
"Deddfwriaeth Briodol"	yr holl statudau, cyfreithiau, rheolau, rheoliadau a safonau, boed yn rhanbarthol, cenedlaethol neu'n rhyngwladol, gan gynnwys y rheiny a orfodir gan unrhyw awdurdod llywodraethol neu reoleiddio, a holl safonau briodol y diwydiant,unrhyw godau a chanllawiau ymarfer da a bennir gan unrhyw gorff hunan-reoleiddio sy'n weithredol o bryd i'w gilydd gan gynnwys Côd Ymddygiad Cymdeithas Ymchwil Marchnata Prydain (MRS);
"Deddfwriaeth Gwarchod Data"	y Ddeddf Gwarchod Data 1998 a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol arall a/neu'r rheoliadau a/neu ganllawiau sy'n ymwneud â gwarchod data o dro i dro sydd mewn grym yn ystod y Tymor;
"Deunyddiau"	ar y cyd y Bâs Data, Dyddiaduron, Gwybodaeth, Holiaduron ac unrhyw a phob dogfen neu ddeunydd arall (ac eithrio'r Adroddiadau) a gynhyrchwyd gan neu ar ran y Cwmni yng nghwrs cyflawni ei oblygiadau o dan y Cytundeb hwn neu fel arall sy'n berthnasol i'r Gwasanaethau;
"Diwrnod Gwaith"	unrhyw ddiwrnod ar wahân i Ddydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru;
"Dyddiad Cychwyn"	20 ain Hydref 2008;
"Dyddiaduron"	dyddiaduron yn y ffurf a gymeradwyir gan S4C yn unol â'r Drefn Gyfathrebu ac a ddefnyddir neu sydd i'wdefnyddio gan y Panel;
"Dyddiad Gweithredol"	1af Ionawr 2009;
"Dyddiad Terfynu"	y dyddiad pan ddaw y Cytundeb hwn i ben trwy dreigl amser neu pan ei derfynir sut bynnag y bo hynny'n digwydd;
"ED"	yr holl neu unrhyw Eiddo Deallusol yn neu mewn perthynas â'r Deunyddiau a/neu'r Adroddiadau a'r holl ac unrhyw Eiddo Deallusol

	arall a gafaelwyd, creuwyd, datblygwyd, dyfeisiwyd neu fel arall a baratowyd gan neu ar ran y Cwmni (a boed ar ben ei hun neu ar y cyd ag unrhyw unigolyn arall) yng nghwrs darparu'r Gwasanaethau;
"Eiddo Deallusol"	ar y cyd unrhyw a'r holl hawliau eiddo deallusol gan gynnwys dyfeisiadau, patentau, dyluniadau cofrestredig, nodau masnach (boed wedi neu heb eu cofrestru), ceisiadau am unrhyw rai o'r uchod a'r hawl i wneud cais amdanynt yn unrhyw ran o'r byd; hawlfreintiau, hawliau sy'n ymdebygu i hawlfraint neu'n cynnig amddiffyniad cyfatebol i hawlfraint, hawliau moesol, hawliau perfformio, hawliau dyluniad, hawliau bâs data; enwau gwefannau, enwau masnach, logos, ffurf gan gynnwys edrychiad a naws y cynnwys; medrau cyfrin, cyfrinachau masnach a gwybodaeth gyfrinachol arall; hawliau o natur hawliau atal cystadleuaeth annheg a'r hawl i ddwyn achos am beri coel; trwyddedau, cydsyniadau, caniatâd ac ildiadau mewn perthynas ag unrhyw un o'r uchod; a'r cyfan neu unrhyw hawliau tebyg neu gyfatebol sy'n codi neu'n bodoli yn unrhyw wlad neu diriogaeth yn y byd;
"Ffi"	y ffi am ddarparu'r Gwasanaethau a bennir yn Atodlen 4;
"Gwarantau"	y gosodiadau a gwarantau a bennir yn Atodlen 2; a dehonglir y term 'Gwarant' yn unol â hyn;
"Gwasanaethau"	y gwaith, gwasanaethau a gweithgareddau a ddisgrifir yn fanwl yn Rhan A o Atodlen 1;
"Gwybodaeth"	yr holl wybodaeth a ddarperir i'r Cwmni gan y Panel (boed yn ei gyfanrwydd neu ran ohono) mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau;
"Gwybodaeth Gyfrinachol S4C"	ar y cyd unrhyw a'r holl wybodaeth, (ym mha bynnag ffurf ac ar ba bynnag cyfrwng) sy'n berthnasol i: (i) y Cytundeb hwn; (ii) y Deunyddiau; (iii) yr Adroddiadau; (iv) yr ED; a/neu (v) busnes, eiddo, asedion, ymarferion busnes, amserlenni, rhaglenni'r dyfodol, strategaeth busnes, datblygiadau, cyfrinachau masnach, Eiddo Deallusol, personél S4C neu ei Chwmnïau Teulu a chwsmeriaid neu gyflenwyr y naill neu'r llall;

"Holiaduron"	holiaduron a gymeradwyir gan S4C yn unol â'r Drefn Gyfathrebu ac a ddefnyddir neu sydd i'w defnyddio gan y Panel;
"Llyffetheiriau"	unrhyw a phob lien, gwystl, mortgais, ernes, ecwiti a llyffethair sydd yn gwarantu unrhyw ddyletswydd ar ran unrhyw berson, trefniadau blaenoriaethol (gan gynnwys trefniadau cadw teitl) a hawliau, buddiannau a hawliadau eraill o ba bynnag natur;
"Panel"	panel ymateb cynulleidfa yn cynnwys [ ] o unigolion sy'n byw yng Nghymru ac sy'n gynrychioladol o boblogaeth Cymru, [ ] ohonynt yn siaradwyr Cymraeg a [ ] yn ddi-Gymraeg; [**bydd angen i S4C a'r ymgeisydd llwyddiannus gytuno ar gyfansoddiad y Panel er mwyn cymryd i ystyriaeth gofynion S4C fel y'u pennir yn y GID a chais yr ymgeisydd llwyddiannus]**
"Personél"	yr holl bobl a gytundebir gan y Cwmni i ddarparu'r Gwasanaethau boed ar sail llawrydd neu gyflogedig;
"Personél Allweddol"	y personél a adnabyddir fel y rhai allweddol yn Atodlen 3;
"Polisïau"	ar y cyd holl bolisïau S4C y cyfeirir atynt yn benodol yn y Cytundeb hwn fel y'u diwygir o bryd i gilydd gan gynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg;
"Rheoliadau"	Rheoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd 2004;
"Safonau Gweithredu"	y safonau gweithredu a ddisgrifir yn Rhan B o Atodlen 1;
"TAW"	treth ar werth;
"Tor-cytundeb Parhaus"	naill ai: (a) unrhyw dorri ar y Cytundeb hwn (ac eithrio unrhyw dor-cytundeb o sylwedd neu dor-cytundeb na ellir ei gywiro) sydd wedi para neu wedi digwydd mwy na thair (3) o weithiau o fewn cyfnod o chwe (6) mis; neu (b) mwy na thri (3) digwyddiad o dorri'r Cytundeb hwn (boed o dorri'r un ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn neu wahanol ddarpariaethau'r Cytundeb hwn) (ac eithrio digwyddiadau o dor-cytundeb o sylwedd neu ddigwyddiadau

	o dorri'r Cytundeb hwn na ellir eu cywiro) yn ystod unrhyw gyfnod o chwe (6) mis**;**
"Trefn Gyfathrebu"	y drefn gyfathrebu sydd ynghlwm yn Atodlen 5;
"Trefnweithiau Cynnal Safonau"	y trefnweithiau cynnal safonau a bennir yn Atodlen 6;
"Trydydd Parti"	unrhyw berson heblaw am S4C neu'r Cwmni;
"Tymor"	y cyfnod pan fydd y Cytundeb hwn mewn grym ac yn weithredol yn sgil darpariaethau cymal 12.1;
"Ymarfer Da'r Diwydiant"	y cyfryw radd o fedr, gofal, diwydrwydd a phwyll a ddisgwylir yn rhesymol ac fel arfer gan unigolion cymwys a phrofiadol sydd yn weithgar yn yr un fath o fusnes â'r Cwmni o dan yr un amgylchiadau neu amodau tebyg; yn defnyddio dulliau, safonau, ymarferion a threfnweithiau sydd yn cwrdd â'r ddeddfwriaeth berthnasol a gan ddefnyddio personél sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol.

1.2 Bydd y geiriau a'r ymadroddion (gan gynnwys geiriau ac ymadroddion a ddiffinnir yng nghymal 1.1) sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir; bydd cyfeiriadau at 'barti' neu'r 'partïon' yn golygu S4C a/neu'r Cwmni fel bo'r cyd-destun yn mynnu; a bydd geiriau sy'n dynodi'r naill ryw yn cynnwys y llall hefyd a dehonglir cyfeiriadau at berson i gynnwys unigolyn, partneriaeth, corfforaeth, llywodraeth, cenedl neu asianataeth llywodraethol neu unrhyw fenter ar y cyd, ymddiriedolaeth, cymdeithas neu bartneriaeth (boed gyda phersonoliaeth cyfreithiol ar wahân ai peidio) ac unrhyw gyfuniad o unrhyw un neu fwy o'r uchod;

1.3 Defnyddir y penawdau yn y Cytundeb hwn er cyfleustra yn unig, ac ni fwriedir iddynt effeithio ar y modd y dehonglir neu y deallir y Cytundeb hwn; bydd cyfeiriadau at ragarweiniad, Atodlenni a Chymalau yn cyfeirio at y rhagarweiniad, yr Atodlenni a chymalau y Cytundeb hwn a bydd unrhyw gyfeiriadau at is-gymalau yn cyfeirio at is-gymalau'r Cymal y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo;

1.4 Bydd yr Atodlenni yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn fel pe baent wedi'u hatgynhyrchu ynddo'n llawn a bydd unrhyw gyfeiriad at y Cytundeb hwn yn cynnwys y rhagarweiniad a'r Atodlenni;

1.5 Dehonglir unrhyw gyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol, i gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wnaed yn ei sgil ac (onibai y pennir yn benodol i'r gwrthwyneb yn y Cytundeb hwn) dehonglir unrhyw gyfeiriad at y statud hwnnw neu'r ddarpariaeth statudol honno neu'r ddeddfwriaeth eilaidd honno fel y gall fod wedi ei hamrywio, newid neu'i hail-weithredu neu fel y gall gael ei hamrywio, newid neu'i hail-weithredu o dro i dro (gyda neu heb ei newid);

1.6 Mae "gan gynnwys" yn golygu "gan gynnwys ond heb gyfyngiad";

1.7 Ni fydd y rheol a elwir y rheol 'ejusdem generis' yn weithredol ac i ganlyniad ni fydd geiriau cyffredinol sy'n cael eu dilyn gan y term 'arall/'eraill' yn cael eu dehongli yn gaeth o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn cael eu rhagflaenu gan eiriau sy'n dynodi dosbarth penodol o weithredoedd, faterion neu bethau;

1.8 Ni fydd geiriau cyffredinol yn cael eu dehongli'n gaeth o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn cael eu dilyn gan enghreifftiau penodol y bwriedir iddynt gael eu cwmpasu gan y geiriau cyffredinol;

1.9 Os cyfyd unrhyw anghydfod neu anghysondeb rhwng y darpariaethau a ymgorfforir yng nghorff y Cytundeb hwn ac/neu'r Atodlenni a/neu'r Polisïau bydd y darpariaethau a ymgorfforir yng nghorff y Cytundeb hwn yn rhagori.

1.10 Pan fo'r Cwmni yn fwy nag un endid cyfreithiol, yna bydd pob un o'r endidau hynny yn atebol ar y cyd ac yn unigol am gyflawni a chydymffurfio â dyletswyddau, gwarantu ac ymrwymiadau'r Cwmni dan y Cytundeb hwn.

2. Cyfnod Paratoi

2.1 Yn ystod y cyfnod Paratoi bydd y Cwmni yn sefydlu ac yn recriwtio'r Panel yn unol â darpariaethau'r Drefn Gyfathrebu.

3. Gwasanaethau

3.1 Bydd y Cwmni, yn ystod y Cyfnod Gweithredol, yn darparu'r Gwasanaethau yn gwbwl unol â'r holl Ddeddfwriaeth Briodol, y Safonau Gweithredu, y Drefn Gyfathrebu, Ymarfer Da'r Diwydiant, y Polisïau a darpariaethau'r Cytundeb hwn.

3.2 Bydd y Cwmni yn sefydlu ac yn cynnal ar bob adeg yn ystod y Tymor y Trefnweithiau Cynnal Safonau ac yn cydymffurfio â hwy.

3.3 Ni fydd y Cwmni yn defnyddio unrhyw holiaduron, dyddiaduron, gohebiaeth neu ddeunyddiau eraill nac yn darparu unrhyw ddogfennau o'r fath i unrhyw aelod a'r Panel hyd nes ac oni bai bod Cynrychiolydd S4C wedi eu cymeradwyo yn unol â'r Drefn Gyfathrebu.

3.4 Bydd y Cwmni yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw unrhyw berson ar y Panel yn cael ei effeithio'n andwyol gan unrhyw gwestiynau a roddir gerbron y Panel boed fel rhan o Holiadur ai peidio ac na fydd unrhyw gwestiynau o'r fath yn peri embaras i unrhyw aelod o'r Panel mewn unrhyw ffordd.

4. Dyletswyddau Cyffredinol y Cwmni

4.1 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn, bydd y Cwmni yn ac yn peri y bydd y Personél ar bob adeg yn ystod y Tymor yn cydymffurfio â:

4.1.1. yr holl Ddeddfwriaeth Gwarchod Data;

4.1.2 holl gyfarwyddiadau a chyfarwyddyd rhesymol S4C o bryd i'w gilydd.

4.2 Bydd y Cwmni yn cyflogi neu'n cytundebu ar ei gost ei hun nifer digonol o Bersonél cymwys a phrofiadol i gyflawni ei oblygiadau dan y Cytundeb hwn gan gynnwys

sefydlu a recriwtio'r Panel a darparu'r Gwasanaethau trwy gydol y Tymor, ymhob achos, yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

4.3 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod y Personél (gan gynnwys Cynrychiolydd y Cwmni) yn cadw cofnodion rhesymol, cywir a chyfredol o'r holl gamau a gweithgaredd a gyflawnwyd ganddynt yn sgil y Cytundeb hwn a bydd y Cwmni, ar gais rhesymol S4C, yn caniatáu i S4C neu ei chynrychiolwyr i archwilio a chymryd copïau ohonynt.

4.4 Ni fydd Cwmni yn ymrwymo i unrhyw ddyletswydd, boed yn echblyg neu'n ymhlyg, ag unrhyw berson sydd yn neu all wrthdaro â chyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn yn llawn ac yn gywir.

4.5 Ni fydd y Cwmni a bydd y Cwmni yn sicrhau na fydd y Personél yn gwneud ar unrhyw adeg yn ystod y Tymor unrhyw beth neu'n gweithredu mewn unrhyw fodd a all effeithio'n andwyol ar ewyllys da S4C neu ei henw da.

4.6 Bydd y Cwmni yn hysbysu S4C yn syth yn ysgrifenedig os am unrhyw reswm y bydd yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau o dan y cytundeb hwn. Bydd unrhyw hysbysiad o'r fath yn ddiragfarn i unrhyw hawliau a all S4C fod â hawl iddynt boed o dan y Cytundeb hwn neu fel arall o dan y gyfraith mewn perthynas ag anallu'r Cwmni i fedru cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn.

4.7 Bydd y Cwmni, wrth ymdrin â'r cyhoedd a'r panel, yn parchu'r egwyddorion yn y Cynllun Iaith Gymraeg, ym mholisi cyfle cyfartal S4C a pholisi S4C ar gydraddoldeb hiliol.

4.8 Bydd y Cwmni yn a bydd yn sicrhau bod yr holl Bersonél ar bob adeg yn ystod y Tymor yn gweithredu er lles gorau S4C ac yn benodol ond heb gyfyngiad ni fyddant yn gwneud neu'n hepgor gwneud unrhyw beth nac yn ymrwymo i unrhyw gytundebau ag unrhyw berson a all wrthdaro â buddiannau gorau S4C ac/neu ddyletswyddau'r Cwmni o dan y Cytundeb hwn.

5. Personél a Phersonél Allweddol

5.1 Bydd y Cwmni yn cadw cofnodion llawn a chywir a'r holl waith papur-cytundebol mewn perthynas â chytundebu'r Personél a bydd yn caniatáu i S4C gael gweld hwy os a phan yn briodol ar gais rhesymol S4C.

5.2 Bydd y Cwmni yn defnyddio'i holl ymdrechion rhesymol i sicrhau bod y Personél Allweddol yn parhau yn gyflogedig ganddo ac ar gael i gyfrannu at ddarparu'r Gwasanaethau trwy gydol y Tymor.

5.3 Bydd y Cwmni yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig o unrhyw faterion neu amgylchiadau a all effeithio ar argaeledd y Personél Allweddol yn syth wedi iddo ddod yn ymwybodol ohonynt.

5.4 Os na fydd unrhyw un neu rai o'r Personél Allweddol ar gael ar unrhyw adeg yn ystod y Tymor, bydd y Cwmni yn crybwyll eilydd addas i S4C yn ysgrifenedig. Ni chaniateir i unrhyw eilydd ar gyfer unrhyw un o'r Personél Allweddol gymryd rhan yn darparu'r Gwasanaethau onibai bo S4C wedi rhoi ei chymeradwyaeth yn ysgrifenedig i'r fath eilydd o flaen llaw. Os na ellir cael gafael ar eilydd sy'n dderbyniol i S4C, bydd gan S4C yr hawl trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni i derfynu'r Cytundeb hwn yn syth.

5.5 Bydd y Cwmni yn cael gwared a neu'n peri y caiff unrhyw un neu fwy o'r Personél ei symud rhag cael unrhyw ran yn, neu ymwneud â'r, Gwasanaethau yn syth ar dderbyn rhybudd ysgrifenedig S4C i wneud hynny lle bo S4C yn ystyried bod ymddygiad neu ymarweddiad y fath Bersonél yn amharu ar fuddiannau, enw da ac ewyllys da S4C neu'n amhriodol o ystyried natur y Gwasanaethau. Bydd penderfyniad S4C o ran a ddylid cael gwared ar unrhyw Bersonél yn derfynol ac yn bendant. Ni fydd S4C yn atebol o dan unrhyw amgylchiadau i'r Cwmni neu i unrhyw Bersonél o'r fath mewn perthynas â chael gwared ohonynt a bydd y Cwmni yn indemnio S4C rhag ac yn erbyn unrhyw a phob hawliad, hawlgais, achos ac/neu ymgyfreitha a wneir neu a ddygir neu a fygythir i'w gwneud neu eu dwyn yn erbyn S4C gan unrhyw Bersonél o'r fath (gan gynnwys costau cyfreithiol a threuliau ar sail y costau rhwng cyfreithiwr a'i gleient ei hun) a ddioddefir mewn cysylltiad â hyn ac unrhyw iawndâl a ddyfernir neu unrhyw arian i setlo a delir mewn cysylltiad â hyn. Ni fydd cael gwared ar unrhyw Bersonél o dan y cymal 5.5 hwn yn rhyddhau'r Cwmni o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn.

6. Adolygu

6.1 Bydd S4C yn adolygu'r modd y mae'r Cwmni wedi cyflawni'r Gwasanaethau yn erbyn y Safonau Gweithredu yn fisol.

6.2 Bydd S4C a'r Cwmni yn cwrdd ar y fath adegau ac yn y fath lefydd ag y bydd S4C yn mynnu'n rhesymol i adolygu'r materion a bennir yng nghymalau 6.4 a 6.5.

6.3 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod Cynrychiolydd y Cwmni a'r cyfryw Bersonél ag y bydd S4C yn gofyn yn rhesymol amdanynt yn mynychu pob cyfarfod adolygu a bydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig yn gosod allan manylion yn ymwneud â'r materion a bennir yng nghymalau 6.4 a 6.5 a'r holl wybodaeth arall y bydd S4C yn gofyn amdani yn rhesymol ar gyfer y cyfnod ers yr adroddiad olaf o'r fath neu yn achos yr adroddiad cyntaf o'r fath am y cyfnod ers y Cychwyn ('y cyfnod perthnasol') o leiaf 10 Diwrnod Gwaith cyn unrhyw gyfarfod o'r fath.

6.4 Ymhob un o'r cyfarfodydd adolygu a gynhelir yn sgil cymal 6.2 ac heb amharu ar ddarpariaethau eraill y Cytundeb hwn, bydd y partïon yn adolygu'r materion canlynol:-

6.4.1 y modd y mae'r Cwmni yn cyflawni ei ddyletswyddau yn erbyn y Safonau Gweithredu;

6.4.2 natur ac/neu ansawdd y Gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y cyfnod perthnasol;

6.4.3 Natur ac ansawdd y wybodaeth;

6.4.4 Ymateb y Panel a'r graddfa lleihad yn nifer y Panel; ac

6.4.5 unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau y gellir eu gwneud i'r Gwasanaethau i wella'r Gwasanaethau.

6.5 Ymhob cyfarfod adolygu a gynhelir yn sgil cymal 6.2 ac heb amharu ar ddarpariaethau eraill y Cytundeb hwn, bydd y part□ n yn ogystal yn adolygu'r materion canlynol:-

6.5.1 y berthynas waith rhwng S4C a'r Cwmni; ac

6.5.2 unrhyw faterion eraill y mae'r naill barti neu'r llall yn dymuno codi.

6.6 Os yn ystod unrhyw fis yn ystod y Cyfnod Prawf y bydd y Cwmni yn methu â chwrdd â'r Safonau Gweithredu (neu unrhyw un neu fwy ohonynt), bydd gan S4C yr hawl i derfynu'r Cytundeb yn syth trwy roi rhybudd i'r Cwmni.

7. Adroddiadau a'r Drefn Gyfathrebu

7.1 Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol yn dilyn dyddiad y Cytundeb hwn, bydd y Cwmni:

7.1.1 yn penodi unigolyn i goruchwylio a threfnu sefydlu a recriwtio'r Panel a'r modd y mae'r Cwmni yn cyflawni'r Gwasanaethau a'i oblygiadau yn sgil y Cytundeb hwn yn ystod y Tymor, sef y person a fydd y prif gyswllt ag S4C o ran darparu'r Gwasanaethau; ac

7.1.2 yn hysbysu S4C o bwy yw yr unigolyn hwn.

Bydd y Cwmni yn hysbysu S4C yn ddi-oed o unrhyw newid o ran Cynrychiolydd y Cwmni yn ystod y Tymor.

7.2 Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol yn dilyn dyddiad y Cytundeb hwn, bydd S4C:

7.2.1 yn penodi unigolyn a fydd y brif gyswllt â'r Cwmni o ran S4C mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn; a

7.2.2 yn hysbysu'r Cwmni yn ysgrifenedig o bwy yw'r unigolyn hwn.

Bydd S4C yn hysbysu'r Cwmni yn ddi-oed o unrhyw newid o ran Cynrychiolydd S4C yn ystod y Tymor.

7.3 Bydd y Cwmni yn cyflwyno Adroddiadau i S4C yn unol â'r amserlenni ac mor aml ag a bennir yn y Drefn Gyfathrebu.

7.4 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod pob Adroddiad yn gyflawn, yn llawn ac yn gywir.

8. Eiddo Deallusol

8.1 Bydd y Deunyddiau, yr Adroddiadau a'r ED yn berchen i ac yn eiddo llwyr S4C a bydd S4C yn rhydd i ddefnyddio ac i ymelwa ar y Deunyddiau, yr Adroddiadau a'r ED ym mha bynnag ffurf, ym mha bynnag fodd ac mewn unrhyw gyfrwng bynnag (boed yn hysbys ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu a ddyfeisir wedi hynny) y dymuna S4C ac mae'r Cwmni drwy hyn:

8.1.1 yn aseinio i S4C yn llwyr, yn ddi-droi-n'ôl ac yn ddiamod gyda theitl llawn wedi ei warantu ac yn rhydd o bob Llyffethair yr holl hawliau, budd a theitl ledled y byd yn ac i unrhyw a phob hawlfraint, hawl sydd o natur hawlfraint, hawl bâs data a hawl dyluniad heb ei chofrestru yn y DG boed yn hysbys ar hyn o bryd neu sy'n dod i rym yn y dyfodol a gynwysir yn yr ED gyda'r bwriad a gyda'r effaith y bydd yr holl hawliau o'r fath yn cael eu breinio yn S4C yn awtomatig ac yn syth ar y dyddiad y gafaelir, creuir, datblygir, dylunir neu fel arall baratoir y fath hawliau; a

8.1.2 yn cytuno i aseinio i S4C yn llwyr, yn ddi-droi-n'ôl ac yn ddiamod gyda theitl llawn wedi ei warantu ac yn rhydd o bob Llyffethair pob hawl budd a diddordeb ledled y byd yn ac i'r holl ED arall;

ymhob achos am gyfnod llawn y cyfryw gan gynnwys pob adnewyddiad ohonynt ac estyniad iddynt ynghyd â phob hawl, budd neu b r sy'n tarddu neu'n deillio ohonynt gan gynnwys yr hawl i ddwyn achos am iawndâl a rhwymed au eraill mewn perthynas ag unrhyw darfu yn y gorffennol neu'n gyfredol arnynt ac mae'r Cwmni yn cydnabod na fydd unrhyw ddefnydd o'r Deunyddiau, yr Adroddiadau ac/neu'r ED gan S4C, ei holynwyr, aseineion neu ei thrwyddedeion ym mha bynnag ffurf, ym mha bynnag fodd ac mewn unrhyw gyfrwng bynnag (boed yn hysbys ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu a ddyfeisir wedi hynny) yn rhoi'r hawl i'r Cwmni neu unrhyw berson arall i dderbyn unrhyw daliad pellach.

8.2 Bydd y teitl cyfreithiol yn ac i'r Deunyddiau a'r Adroddiadau yn pasio i S4C yn syth wedi eu creu.

8.3 Bydd y Cwmni ar gais ac ar gost S4C yn cyflawni yr holl weithredoedd ac yn cyflawni yr holl ddogfennau ag y gall S4C eu mynnu o bryd i'w gilydd:

8.3.1 er mwyn diogelu neu freinio'n briodol yn S4C yr holl hawliau, teitl a budiannau ag a aseinir ac a drwyddedir i S4C neu sydd i'w haseinio neu i'w trwyddedu i S4C yn sgil y cymal 8 hwn; ac/neu

8.3.2 i ddiogelu neu i warchod yr ED fel patent, dyluniad cofrestredig, nôd masnach cofrestredig a/neu ffurf arall o'i ddiogelu.

9. Gwarantau

9.1 Mae'r Cwmni yn addo, yn gwarantu ac yn ymrwymo ag S4C ar y telerau a bennir yn Atodlen 2.

9.2 Mae'r Cwmni yn derbyn bod S4C yn arwyddo'r Cytundeb hwn gan ddibynnu ar bob un o'r Gwarantau.

9.3 Bernir bod y Cwmni wedi ail-adrodd y Gwarantau ar y Dyddiad Gweithredol.

9.4 Dehonglir pob un o'r Gwarantau fel gwarant annibynnol ac ar wahân ac ni chyfyngir neu amharir ar eu hystyr neu eu heffaith trwy gyfeirio at neu drwy ddehongli telerau unrhyw Warant arall neu unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb hwn.

10. Materion Ariannol

10.1 Ar yr amod bod y Cwmni yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn, bydd S4C yn talu'r Ffi yn y rhandaliadau mewn dyled yn unol â'r Amserlen Dalu.

10.2 Nid yw'r Ffi yn cynnwys TAW ac fe delir TAW gan S4C uwchlaw'r Ffi yn amodol ar dderbyn anfonebau TAW priodol.

10.3 Mae'r Ffi yn cynnwys yr holl gostau a threuliau a ddioddefir gan y Cwmni wrth sefydlu a rheoli'r Panel a darparu'r Gwasanaethau.

10.4 Bydd talu'r Ffi neu unrhyw rhandaliad ohoni yn ddiragfarn i unrhyw hawliadau neu hawliau y gall S4C fod â hawl iddynt yn erbyn y Cwmni ac ni ddehonglir unrhyw

daliad gan S4C fel addefiad gan S4C fod y Cwmni wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn yn ddilys.

10.5 Heb amharu ar unrhyw hawliau neu rwymedïau y gall S4C fod â hawl iddynt boed o dan y Cytundeb hwn neu'r gyfraith, bydd gan S4C yr hawl i gadw'n ôl y cyfan o'r Ffi neu unrhyw randaliad ohoni os yw'r Cwmni yn torri unrhyw rai o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn.

11. Indemniad

Bydd y Cwmni yn indemnio ac yn cadw'n ddigolled ac yn cadw S4C wedi ei hindemnio ac yn ddigolled rhag ac yn erbyn unrhyw a phob achos, hawliad, hawlgais, ymgyfreitha, dirwy, gost, traul (gan gynnwys treuliau cyfreithiol ar sail y costau rhwng cyfreithiwr a'i gleient ei hun), taliad, colled, iawndâl ac atebolrwydd arall o ba bynnag natur a sut bynnag y bo'n tarddu a ddioddefir, a delir neu a dderbynnir gan S4C o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw gyflawni neu ddiffyg gyflawni gan y Cwmni o unrhyw rai o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw dorri ar unrhyw un neu fwy o'r Gwarantau gan y Cwmni neu unrhyw esgeulustod neu weithred neu ddiffyg gweithredu fwriadol ar ran y Cwmni neu ar ran unrhyw Bersonél neu unrhyw hawliad gan unrhyw berson bod unrhyw ddefnydd neu ymelwa gan S4C neu unrhyw un o'i holynwyr, aseineion neu ei thrwyddedeion o'r ED, y Deunyddiau neu'r Adroddiadau (neu unrhyw rai ohonynt) yn tarfu ar Eiddo Deallusol neu hawliau eraill unrhyw berson.

12. Tymor a Therfynu

12.1 Bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn ac, onibai y'i ymestynnir gan S4C yn unol â'r darpariaethau yng nghymal 12.2 neu ei derfynir yn gynnar yn unol â darpariaethau cymalau 5.4, 6.6, 12.3, a 16.3, bydd yn parhau mewn grym hyd ganol nos ar 31ain Rhagfyr 2011.

12.2 Bydd gan S4C yr opsiwn, yn ôl ei dewis, i ymestyn tymor y Cytundeb hwn am gyfnod o ddeuddeng (12) mis pellach yn cychwyn ar 1af Ionawr 2012 trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni cyn neu ar 1af Gorffennaf 2011.

12.3 Heb amharu ar unrhyw hawliau neu rwymedïau y gall S4C fod â hawl iddynt boed o dan y Cytundeb hwn neu o dan y gyfraith, gall S4C ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni derfynu'r Cytundeb hwn gydag effaith disyfyd os:

12.3.1 yw'r Cwmni yn torri'n sylweddol unrhyw rai o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn sydd (a) yn methu â chael ei gywiro; neu (b) os oes modd ei gywiro, heb ei gywiro o fewn deng niwrnod ar hugain (30) i S4C ddwyn y fath dor-amod i sylw y Cwmni (neu'r fath gyfnod hirach ag y gall S4C gytuno iddo); neu

12.3.2 yw'r Cwmni yn euog o Dor-cytundeb Parhaus; neu

12.3.3 yw'r Cwmni yn Ansolfent; neu

12.3.4 oes newid yn rheolaeth (fel y diffinnir 'rheolaeth' yn adran 416 o'r Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988 y Cwmni.

13. Canlyniadau Dirwyn i Ben neu Derfynu

13.1 Wedi i'r Cytundeb hwn ddirwyn i ben trwy dreigl amser neu gael ei derfynu sut bynnag y bo hynny'n digwydd ac yn ddarostyngedig ar bob achlysur i ddarpariaethau'r cymal 13 hwn bydd yr holl hawliau a dyletswyddau o dan y Cytundeb hwn yn dod i ben ac yn terfynu yn syth heb amharu ar unrhyw hawliau gweithredu sydd wedi cronni hyd at y pwynt hynny o dan y Cytundeb hwn gan gynnwys unrhyw hawliau y gall y naill barti neu'r llall fod â hawl iddynt mewn perthynas â hawlio iawndâl am dor-gytundeb gan y parti arall o unrhyw un neu fwy o delerau'r Cytundeb hwn.

13.2 Bydd dyletswydd S4C i dalu'r Cwmni wedi ei chyfyngu i'r fath daliadau ag sy'n ddyledus am y gwaith sydd wedi ei wneud mewn gwirionedd ac yn gywir gan y Cwmni wrth fodd rhesymol S4C yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn hyd at y Dyddiad Terfynu.

13.3 Bydd y Cwmni yn syth wedi'r Dyddiad Terfynu yn cyfleu i S4C ar ei gost ei hun:

13.3.1 yr holl eiddo sy'n berchen i S4C sydd ym meddiant neu ofal y Cwmni neu o dan ei awdurdod neu reolaeth gan gynnwys yr holl Ddeunyddiau, Adroddiadau ac unrhyw a'r holl Wybodaeth Gyfrinachol S4C ynghyd â'r holl gopïau ohonynt neu bytïau ohonynt; a

13.3.2 yr holl ddogfennau eraill sy'n berthnasol i'r Cytundeb hwn; ac

os gofynna S4C iddo wneud hynny yn darparu yr holl gymorth ag y gall S4C ofyn amdano'n rhesymol naill ai wrth drosglwyddo darparu'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa yn ôl i S4C neu wrth drosglwyddo darparu'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa i unrhyw olynydd o ddarparwr a benodir gan S4C, gan gynnwys trosglwyddo'r Panel i S4C neu, os dewisa S4C hynny, unrhyw olynydd o ddarparwr o'r fath.

13.4 Os bydd y Cytundeb hwn yn cael ei derfynu gan S4C yn sgil cymalau 6.6 neu 12.3.1 neu 12.3.2 ac os bydd cynnydd yng nghyfanswm y costau (gan gynnwys TAW) i S4C o ddarparu'r Gwasanaethau (boed y rheiny yn cael eu darparu neu eu cynhyrchu gan S4C yn fewnol neu gan Drydydd Parti) am weddill cyfnod y Cytundeb hwn pe na bai'r terfynu wedi digwydd uwchlaw'r cyfran o'r Ffi a fyddai'n ddyledus i'r Cwmni pe na bai'r Cytundeb hwn wedi ei derfynu, bydd y Cwmni yn talu i S4C ar hawliad S4C y fath swm ag sy'n cyfateb i'r cynnydd.a bydd y fath daliad yn ddi-ragfarn i unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill y gall S4C fod â hawl iddynt boed o dan y Cytundeb hwn nwu o dan y Gyfraith.

13.5 Bydd y cymalau canlynol yn goroesi os fydd y Cytundeb hwn yn dirwyn i ben trwy dreigl amser neu'n cael ei derfynu sut bynnag y bo'n digwydd:

1, 5.5, 8, 11, 13, 17, 17, 18, 20 a 21.

14. Anghydfodau

14.1 Caiff pob anghydfod rhwng y partïon sy'n tarddu o'r Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef ei gyfeirio gan y naill barti i Gynrychiolydd S4C a Chynrychiolydd y Cwmni. Os nad yw Cynrychiolydd S4C a Chynrychiolydd y Cwmni yn medru cytuno ar sut i ddatrys yr anghyfod o fewn pedwar diwrnod ar ddeg (14) o'r mater yn cael ei

gyfeirio atynt, caiff yr anghyfod ei ddatrys gan gyfryngwr (mediator) yn unol â threfn cyfryngu model y Ganolfan Datrys Anghyfodau'n Effeithiol ('CEDR'). I gychwyn y broses gyfryngu, bydd y naill barti neu'r llall yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r llall yn gofyn i'r anghydfod gael ei ddatrys trwy gyfryngwr. Bydd y broses gyfryngu yn cychwyn dim llai na wyth diwrnod ar hugain (28) wedi dyddiad y rhybudd yn gofyn am gychwyn y broses gyfryngu.

14.2 Bydd y partïon yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau perthnasol o dan y Cytundeb hwn tra bod unrhyw anghydfod yn cael ei ddatrys o dan darpariaethau'r cymal 14 hwn.

15. Aseinio ac Is-Gontractio

15.1 Bydd S4C yn rhydd i aseinio, newyddu, is-gontractio neu fel arall waredu ei hawliau neu ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw ran ohono a bydd y Cwmni yn arwyddo'r cyfryw weithredoedd newyddu parthed yr uchod ag y gall S4C ofyn iddo wneud yn rhesymol.

15.2 Mae'r Cytundeb hwn yn bersonol i'r Cwmni. Felly, ni fydd y Cwmni yn aseinio, newyddu, is-gontractio neu fel arall yn gwaredu ei hawliau neu ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw ran ohono heb ganiatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw.

16. Force Majeure

16.1 Ystyr "Force Majeure" yw unrhyw weithred new ddigwyddiad neu amgylchiadau neu gyfuniad o weithredoedd, amgylchiadau a digwyddiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y naill barti neu'r llall.

16.2 Os digwydd gweithred o Force Majeure, bydd y parti yr effeithir arno ganddo'n rhybuddio'r llall yn ddi-oed mewn ysgrifen a chyhyd ag y bo'r anallu i gadw at neu i gyflawni unrhyw ddyletswydd dan y Cytundeb hwn yn deillio o'r weithred honno o Force Majeure, ystyrir bod gweithredu'r dyletswyddau yr effeithir arnynt yn cael ei ohirio o ddyddiad y cyflwynir y cyfryw rybudd nes cael gwared ar y cyfryw anallu neu nes y terfynir y Cytundeb hwn yn gynnar yn unol â chymal 16.3.

Mae'r ddau barti'n cytuno i ddefnyddio pob ymdrech resymol i leihau a chwtogi unrhyw gyfnod o oedi, a'r holl gostau a threuliau a gyfyd o achos o Force Majeure. Yn ystod unrhyw gyfnod o oedi o'r fath, ni fydd unrhyw ddyletswydd ar S4C i dalu'r Ffi (neu unrhyw randaliad ohoni) i'r Cwmni.

16.3 Os bydd gweithred o Force Majeure yn digwydd ac yn parhau am gyfnod o ddau (2) fis neu fwy, yna bydd gan S4C yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn trwy roi rhybudd yn ysgrifenedig i'r Cwmni.

17. Gwrthgyfrif

Heb gyfyngu ar hawl S4C i wrth-gyfrif dan gyfraith gwlad, bydd gan S4C yr hawl i osod yr holl arian sy'n ddyledus gan y Cwmni iddi o bryd i'w gilydd neu fel arall y mae ganddi yr hawl iddo (boed o dan y Cytundeb hwn neu yn sgil unrhyw setliad neu ddyfarniad sy'n goblygu bod iawndâl neu indemniad yn ddyledus iddi mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn) yn erbyn ac i'w ddidynnu o'r holl arian sy'n daladwy i'r Cwmni gan S4C dan y Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb neu drefniant arall.

18. Rhybuddion

18.1 Bydd unrhyw rybudd a roddir neu a wneir o dan neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn ysgrifenedig a chaiff ei roi neu ei gyflwyno i'r parti sydd i'w dderbyn yn y cyfeiriad a bennir yng nghymal 18.3 neu ei gyflwyno drwy drosglwyddiad facsimile i rif facsimile y parti i'w dderbyn a bennir yng nghymal 18.3 neu ei anfon drwy e-bost i gyfeiriad e-bost y parti i'w dderbyn a bennir yng nghymal 18.3 neu'r fath gyfeiriad, rhif facsimile neu gyfeiriad e-bost arall ag y gall y naill barti hysbysu'r llall ohono o dro i dro, ac ymhob achos, wedi ei nodi at sylw y person a bennir isod (neu unrhyw eilydd a hysbysir gan y parti i dderbyn y rhybudd i'r llall o bryd i'w gilydd).

18.2 Ystyrir bod pob rhybudd a gyflwynir yn unol â darpariaethau cymal 18.3, wedi ei rhoi neu ei gyflwyno'n ddilys, yn achos rhybudd wedi ei gyflwyno â llaw, wedi iddo gael ei gyflwyno yng nghyfeiriad y sawl sydd i'w dderbyn neu os bydd wedi ei gyflwyno i swyddfa'r post, a'r swm cywir wedi ei dalu ymlaen llaw ar gyfer ei anfon gyda'r post dosbarth cyntaf, ar yr ail (2ail) Ddiwrnod Gwaith yn dilyn ei bostio, neu os ei gyflwynwyd trwy drosglwyddiad facsimile neu drwy e-bost, ar adeg ei drosglwyddo, ar yr amod os, yn unol â'r darpariaethau uchod, y byddai unrhyw rybudd fel arall yn cael ei ystyried wedi ei gyflwyno neu ei roi ar ddiwrnod nad sy'n Ddiwrnod Gwaith, neu ar ôl 5.30 y.h. ar Ddiwrnod Gwaith, ystyrir bod y fath rybudd wedi ei roi neu ei gyflwyno am 9.00 y.b. ar y Diwrnod Gwaith dilynol.

18.3 S4C

Cyfeiriad: Parc T□ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

Rhif ffacs:
Cyfeiriad E-bost:
At Sylw:

Y Cwmni

Cyfeiriad:

Rhif ffacs:
Cyfeiriad E-bost:
At Sylw:

18.4 Ni ddehonglir neu ystyrir unrhyw beth yn y cymal 18 hwn fel cytundeb ar ran S4C i dderbyn cyflwyno unrhyw achosion cyfreithiol drwy drosglwyddiad facsimile neu drwy e-bost.

19. Rhwymedïau ac Ildio

19.1 Ni fydd unrhyw ildiad gan barti ar unrhyw dorri ar unrhyw rai o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn yn effeithiol oni chaiff ei roi mewn ysgrifen.

19.2 Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi ar ran y naill barti i ymarfer unrhyw hawl, p□ r neu rwymedi sydd gan y fath barti dan y Cytundeb hwn o dan unrhyw amgylchiadau yn amharu ar neu'n gwanhau'r fath hawl, p□ r neu rwymedi nac yn cymryd effaith fel ildiad ohonynt. Ni fydd unrhyw ymarferiad unigol neu rannol gan y naill barti i'r

Cytundeb hwn o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi dan y Cytundeb hwn yn atal unrhyw ymarfer arall neu bellach o'r fath hawl, pŵer neu rwymedi nac ar unrhyw ymarfer o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi arall.

19.3 Mae hawliau, pwerau a rhwymedïau S4C a ddarperir dan y Cytundeb hwn yn gronnol ac nid ydynt yn nacáu unrhyw hawliau, pŵerau neu rwymedïau a ddarperir gan y gyfraith.

19.4 Ni ddehonglir unrhyw ildiad o unrhyw dorri ar neu fethu â chyflawni unrhyw rai o delerau'r Cytundeb hwn fel ildiad o unrhyw dor-cytundeb neu fethiant hwyrach ac ni fydd mewn unrhyw fodd yn effeithio ar delerau eraill y Cytundeb hwn.

20. Cyfrinachedd

20.1 Mae'r Cwmni yn cydnabod bod y Cwmni a'r Personél wedi derbyn ac y bydd y Cwmni a'r Personél mewn sefyllfa i dderbyn, i gael gweld neu ddarganfod Gwybodaeth Gyfrinachol S4C.

20.2 Bydd y Cwmni yn ystod y Tymor ac ar bob adeg wedi hynny yn cadw'n breifat a chyfrinachol holl Wybodaeth Gyfrinachol S4C a bydd yn sicrhau na fydd y Personél (boed cyn, yn ystod neu wedi'r Cytundeb hwn ddod i ben) yn datgelu, yn dadlennu, yn gwneud yn gyhoeddus nac yn cyfathrebu i unrhyw berson neu bersonau'r fath Wybodaeth Gyfrinachol S4C neu unrhyw ran ohoni neu unrhyw wybodaeth arall a ddaw i'w feddiant yn ystod ac o galyniad i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn. Bydd y Cwmni yn defnyddio Gwybodaeth Gyfrinachol S4C at ddiben darparu'r Gwasanaethau i S4C yn unig.

20.3 Bydd y Cwmni yn cymryd pob cam a gofal sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod holl Wybodaeth Gyfrinachol S4C:

20.3.1 yn cael ei ddatgelu yn unig i'r fath Bersonél a'r cynghorwyr proffesiynol neu ymgynghorwyr a gytundebwyd i'w gynghori mewn perthynas â'r Cytundeb hwn ag sydd angen bod yn ymwybodol ohoni at ddibenion cyflawni'r Cytundeb hwn.

20.3.2 yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni ddatgelir (heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw) neu ei defnyddir gan unrhyw un o'r Personél neu'r fath unigolion neu gynghorwyr neu ymgynghorwyr ac eithrio at ddibenion y Cytundeb hwn.

20.4 Ni fydd y cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth a gynhwysir yng nghymal 20.2 yn weithredol i unrhyw wybodaeth sydd:

20.4.1 yn gyhoeddus neu a ddaw yn gyhoeddus ac eithrio o ganlyniad i unrhyw dorri ar y cyfyngiadau ar ddatgelu gan y Cwmni neu unrhyw rai o'r Personél; neu

20.4.2 yn ofynnol i'w datgelu o dan y gyfraith neu i unrhyw gorff rheoleiddio y mae y Cwmni yn gorfod cydymffurfio â'i reolau.

21. DRHG

21.1 Mae'r Cwmni yn cydnabod bod S4C yn gorff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ofynion y DdRhG a'r Rheoliadau a bydd yn cynorthwyo ac yn cydweithio ag S4C i

alluogi S4C i gydymffurfio â'i dyletswyddau odanynt ac, yn y cyswllt hwn, bydd y Cwmni yn ac yn peri i'r Personél :

21.1.1 ddarparu copi o'r holl wybodaeth berthnasol yn ei feddiant neu o fewn ei rym i S4C yn y ffurf y mae ei angen ar S4C ; a

21.1.2 darparu'r holl gymorth angenrheidiol y bydd S4C yn gofyn amdano'n rhesymol i alluogi S4C i ymateb i gais am wybodaeth o fewn yr amser cydymffurfio a bennir yn adran 10 y DdRhG neu reoliad 5 y Rheoliadau

ar yr amod bod S4C yn rhoi rhybudd ysgrifenedig rhesymol i'r Cwmni o flaen llaw (a chaiff rhesymoldeb y rhybudd ei farnu yng nghyd-destun yr amserlen stadudol ar gyfer darparu'r wybodaeth).

21.2 Bydd S4C yn gyfrifol am bennu os yw'r wybodaeth:

21.2.1 wedi'i heithrio o'i datgelu yn unol â darpariaethau'r DdRhG neu'r Rheoliadau;

21.2.2 i'w datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth, ac ni fydd y Cwmni yn ymateb yn uniongyrchol ar unrhyw gyfrif i gais am wybodaeth oni ei awdurdodir yn benodol gan S4C i wneud hynny ar ran S4C.

21.3 Mae'r Cwmni yn cydnabod y gall S4C gael ei gorfodi i ddatgelu gwybodaeth (gan gynnwys gwybodaeth gyfrinachol y Cwmni) o dan y DdRhG, neu'r Rheoliadau, neu all benderfynu fod cydymffurfio â chais penodol am wybodaeth yn gwasanaethu'r budd cyhoeddus yn fwy na gwrthod y cais yn unol ag unrhyw eithriad perthnasol. Bydd S4C yn ymgynghori â'r Cwmni ble bo hynny'n ymarferol ac yn cymryd ystyriaeth o'i farn. Ble bo barn y Cwmni yn groes i'r cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd gan S4C, bydd cyngor cyfreithiol S4C yn rhagori.

21.4 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gynhyrchir tra'n cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn neu sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb hwn yn cael ei chadw ar gyfer ei datgelu a bydd yn caniatáu S4C i archwilio'r cyfryw wybodaeth ar gais S4C o bryd i'w gilydd.

22. Dehongliad

22.1 Cytunir bod y Cwmni yn ymrwymo i'r Cytundeb hwn ac yn cyflawni ei ddyletswyddau fel contractiwr annibynnol, ac ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn awgrymu bod unrhyw fath o bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y Cwmni ac S4C, ac ni fydd y naill barti na'r llall yn honni ei fod yn gweithredu fel asiant ar ran y llall.

22.2 Os bydd Llys yn gwahardd unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn neu'n barnu bod unrhyw un o'r darpariaethau hynny'n anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n un na ellir ei gweithredu, yna bydd cymaint ag sy'n angenrheidiol o'r ddarpariaeth honno'n cael ei dileu o'r Cytundeb hwn, a'i gwneud yn aneffeithiol ac ni fydd yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw ddarpariaeth arall yn nac ar ddilysrwydd na gweithredu'r Cytundeb hwn.

22.3 Ac eithrio unrhyw ddatganiadau twyllodrus, mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys y cytundeb cyfan rhwng y partïon i'r Cytundeb hwn mewn cysylltiad â thestun y Cytundeb hwn a bydd yn disodli pob cytundeb ac ymrwymiad blaenorol mewn

perthynas darparu'r Gwasanaethau ac ni ddibynnodd y naill barti ar unrhyw ddatganiad heblaw am y datganiadau a nodir yn benodol yn y Cytundeb hwn.

22.4 Nid yw'r Cytundeb hwn yn creu neu'n breinio unrhyw hawliau dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd-Bartïon) 1999 a ellir eu gweithredu gan unrhyw berson nad yw'n barti i'r Cytundeb hwn.

22.5 Ni fydd unrhyw amrywiad i'r Cytundeb hwn (ac eithrio newidiadau) o unrhyw effaith neu rym onibai ei fod mewn ysgrifen ac wedi ei arwyddo gan gynrychiolwyr awdurdodedig y partïon yn ddilys.

22.6 Dehonglir y Cytundeb hwn fel cytundeb a wnaed yng Nghymru, ac yn ddarostyngedig i gyfreithiau Cymru a Lloegr ac sy'n ddarostyngedig (ond yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cymal 14) i awdurdodaeth ecsgliwsif Llysoedd Cymru a Lloegr.

YN DYST i hyn mae'r partïon i'r Cytundeb hwn wedi arwyddo'r Cytundeb hwn y dyddiad a'r flwyddyn a bennir uchod ar ddechrau'r Cytundeb hwn.

ATODLEN 1
RHAN A
Gwasanaethau

[Caiff manylion a disgrifiad y Gwasanaethau eu cytuno rhwng S4C a'r ymgeisydd llwyddiannus ar sail gofynion S4C fel y'u heglurwyd yn y GID a'r cynnig tendro a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd llwyddiannus.]

RHAN B
Safonau Gweithredu

[Caiff manylion y Safonau Gweithredu eu cytuno rhwng S4C a'r ymgeisydd llwyddiannus ar sail gofynion S4C fel y'u heglurwyd yn y GID a'r cynnig tendro a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd llwyddiannus ond byddant yn cynnwys: cyfraddau ymateb; graddfeydd lleihad yn nifer y Panel; maint y samplau; ansawdd yr adroddiadau data; a pha mor brydlon bydd angen cyflwyno adroddiadau.]

ATODLEN 2

Gwarantau

(Noder: Efallai bydd angen addasu'r gwarantau sy'n benodol i gwmnïau cyfyngedig yn dibynnu ar statws cyfreithiol y 'Cwmni')

1. Mae'r Cwmni yn addo, yn gwarantu ac yn ymrwymo ag S4C fel a ganlyn:-

a) y mae wedi ei sefydlu a'i ymgorffori yn ddilys o dan gyfreithiau [Cymru a Lloegr] a bod ganddo y pŵr corfforaethol i berchen ei asedau ei hun ac i gynnal a rhedeg ei fusnes yn y modd y mae'n cael ei gynnal a'i rhedeg ar hyn o bryd;

b) fod ganddo y pŵr i arwyddo'r Cytundeb hwn ac i ymarfer ei hawliau ac i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn;

c) nad yw arwyddo, cyfleu a gweithredu'r Cytundeb hwn gan y Cwmni yn mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn:

i) Memorandwm Cydweithio ac Erthyglau Ymgorffori'r Cwmni;

ii) unrhyw orchymyn neu archddyfarniad gan unrhyw lys neu gyflafareddwr; neu

iii) unrhyw ddyletswydd sy'n rhwymo'r Cwmni neu unrhyw rai o'i asedau neu enillion;

ch) bod y wybodaeth, datganiadau a materion ffeithiol eraill a gofnodwyd ar bapur yn ysgrifenedig i S4C gan y Cwmni mewn cysylltiad â neu'n tarddu o'i gynnig yn gywir a chyflawn ymhob agwedd o sylwedd ar y dyddiad y cyflwynwyd hwy i S4C;

d) nid oes unrhyw hawliad yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw gyfreitha, cyflafareddiad na achosion gweinyddol ar droed ar hyn o bryd nac, hyd eithaf gwybodaeth y Cwmni, yn yr arfaeth neu wedi eu bygwth yn erbyn y Cwmni neu ei asedau sydd yn arwyddocaol ac a fydd yn cael neu sydd yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar allu'r Cwmni i gyflawni ei ddyletswyddau a dan y Cytundeb hwn;

dd) nid yw'n rhwym i unrhyw ddyletswydd, y byddai cydymffurfio â hi yn cael neu'n debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar allu'r Cwmni i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn;

e) nid oes unrhyw achosion neu gamau eraill wedi eu cymryd ac heb eu rhyddhau (nac, hyd eithaf gwybodaeth y Cwmni, wedi ei bygwth) ar gyfer dirwyn y Cwmni i ben neu ei ddiddymu neu er mwyn penodi derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, gweinyddwr, diddymwr, ymddiriedolwr neu swyddog tebyg parthed unrhyw rai o'i asedau neu ei enillion;

f) na fydd dim a gynhwysir yn y Deunyddiau neu'r Adroddiadau nac unrhyw ddefnydd arnynt gan S4C yn tarfu ar unrhyw hawliau (gan gynnwys unrhyw Eiddo Deallusol) unrhyw berson, ac na fydd yn anllad nac yn enllibus, yn gableddus nac yn ddifenwol, nac yn torri darpariaethau unrhyw Ddeddfwriaeth Briodol;

g) bod yr holl wybodaeth a ddarperir gan y Cwmni o dan y Cytundeb hwn yn gywir ac yn gyflawn ac fe'i darparir yn brydlon yn electroneg neu are gopïau called fel sy'n berthnasol;

ng) bydd y Cwmni yn cydymffurfio â'r holl Ddeddfwriaeth Gwarchod Data berthnasol wrth trin data a gwybodaeth y mae'n sicrhau neu'n cael mynediad iddo o ganlyniad i neu yng nghwrs darparu'r Gwasanaethau;

h) nad oes unrhyw lien, hawliad, achos na chyfreithiad yn yr arfaeth neu wedi'i fygwth sydd yn effeithio ar neu'n ymwneud â'r Adroddiadau, y Deunyddiau neu'r ED.

ATODLEN 3

Personél Allweddol

ATODLEN 4

Ffi a'r Amserlen Dalu

ATODLEN 5

Y Drefn Gyfathrebu

[Caiff manylion y Drefn Gyfathrebu eu cytuno rhwng S4C a'r ymgeisydd llwyddiannus ar sail gofynion S4C fel y'u heglurwyd yn y GID a'r cynnig tendro a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd llwyddiannus.]

ATODLEN 6
Trefnweithiau Cynnal Safonau

[Caiff manylion y Trefnweithiau Cynnal Safonau eu cytuno rhwng S4C a'r ymgeisydd llwyddiannus ar sail gofynion S4C fel y'u heglurwyd yn y GID a'r cynnig tendro a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd llwyddiannus.]

ARWYDDWYD gan

Cynrychiolydd awdurdodedig
dros ac ar ran
S4C

ARWYDDWYD gan

[ ]

Cynrychiolydd awdurdodedig
dros ac ar ran
[ ]